# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## Cofnodion CSO(2)-07-06 (mins)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Llun 3 Gorffennaf 2006
### Amser y cyfarfod: 5pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |

#### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Peter Jones | Cwnsler Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Gareth Williams | Clerc y Pwyllgor |
| Siân Wilkins | Clerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Sarah Beasley | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Val Lloyd. Roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ei rhan.

## Eitem 2: Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cynulliad yn y dyfodol

## Papurau:

CSO(2)-07-06 (p1) – Rheol Sefydlog 1
CSO(2)-07-06 (p2) – Rheol Sefydlog 2
CSO(2)-07-06 (p3) – Rheolau Sefydlog 5, 6, 13
CSO(2)-07-06 (p4) – Rheol Sefydlog 7
CSO(2)-07-06 (p5) – Rheol Sefydlog 12
CSO(2)-07-06 (p6) – Rheol Sefydlog 20
CSO(2)-07-06 (p7) – Rheol Sefydlog 23
CSO(2)-07-06 (p8) – Rheolau Sefydlog 35, 36
CSO(2)-07-06 (p9) – Rheol Sefydlog 37

## Papur 1 a'r Atodiad (Rheol Sefydlog 1)

2.1 Rheol Sefydlog 1.1 – fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

2.2 Rheol Sefydlog 1.2 – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiynau yn y papur.

2.3 Rheol Sefydlog 1.3 – cytunodd y pwyllgor y dylid cadw'r paragraff hwn ar ei ffurf bresennol.

2.4 Rheolau Sefydlog 1.4-1.7 – fe'u nodwyd gan y Pwyllgor.

2.5 Rheol Sefydlog 1.8 – cytunodd y pwyllgor ar y dull a amlinellwyd yn y papur a chytunodd fod angen darpariaeth yn y rheolau sefydlog ar gyfer cynnal etholiad newydd os yw'r blaid/pleidiau sy'n llywodraethu yn newid ac os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, o ganlyniad i hynny, yn aelodau o wahanol grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol.

2.6 Rheol Sefydlog 1.9 – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiynau yn y papur.

2.7 Rheol Sefydlog 1.10 – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiynau yn y papur.

2.8 Rheol Sefydlog 1.11 – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiwn yn y papur.

2.9 Cytunodd y pwyllgor y byddai'r clercod yn drafftio paragraffau newydd yn y rheol sefydlog hon i ddarparu i'r Dirprwy Lywydd lywyddu 'fel arfer' ['normally'] yn absenoldeb y Llywydd. Pe bai'r

Llywydd yn absennol am gyfnod hwy, byddai modd i'r rheolau sefydlog ddarparu i'r Cynulliad ethol person i lywyddu dros dro.

2.10 Rheol Sefydlog 1.12 - cytunodd y pwyllgor y byddai'r clercod yn drafftio datganiad cadarn i'w gynnwys yn y rheolau sefydlog ynghylch yr angen i fod yn ddiduedd wrth arfer rôl y Llywydd/ Dirprwy Lywydd. Byddai'r pwyllgor yn ystyried hyn ymhellach mewn cyfarfod arall.

2.11 Rheol Sefydlog 1.13 – fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

2.12 Rheol Sefydlog 1.14 – fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

2.13 Rheol Sefydlog 1.15 – bu'r pwyllgor yn trafod pa mor briodol yw'r geiriad cyfredol, "as soon as may be" ["cyn gynted ag y bo modd"], yn y rheol sefydlog hon a chytunodd i gael cyngor cyfreithiol ar y mater. [Cam gweithredu]

**Papur 2 a'r Atodiad – Rheol Sefydlog 2**

2.14 Rheol Sefydlog 2.1 – fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

2.15 Rheol Sefydlog 2.2 – bu'r pwyllgor yn trafod y cwestiynau yn y papur a chytunodd arnynt.

2.16 Rheol Sefydlog 2.3 – fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

2.17 Rheol Sefydlog 2.4 - cytunodd y pwyllgor y dylai fod yn ofynnol i Brif Weinidog Cymru roi gwybod i'r Cynulliad am aelodau ei gabinet/chabinet a'u cyfrifoldebau.

2.18 Rheol Sefydlog 2.5-2.6 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

2.19 Rheol Sefydlog 2.7 – bu'r pwyllgor yn trafod sut y gallai'r rheolau sefydlog gyfeirio at God y Gweinidogion heb iddi fod yn ofynnol cael Cod o'r fath. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai modd darparu i'r Cynulliad gael gwybod am unrhyw God ar gyfer y Gweinidogion ac am fanylion y Cod hwnnw [‘the Assembly to be informed of any Ministerial Code and its details’]. Cytunodd y pwyllgor i ddychwelyd at y mater hwn.

2.20 Rheol Sefydlog 2.8 – awgrymwyd nad oedd hwn yn fater i'w gynnwys yn y rheolau sefydlog. Cytunodd y pwyllgor i ddychwelyd at y mater hwn pan fyddai'n ystyried Cod y Gweinidogion.

2.21 Rheol Sefydlog 2.9 – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiwn yn y papur.

2.22 Rheol Sefydlog 2.10 – cytunodd y pwyllgor i beidio ag ailddatgan darpariaethau'r Mesur yn y cyswllt hwn.

2.23 Penodi Cwnsler Cyffredinol – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiwn yn y papur.

2.24 Cymryd rhan mewn trafodion – roedd y pwyllgor yn fodlon â'r geiriad a awgrymwyd yn y papur.

## Papur 3 a'r Atodiadau - Rheolau Sefydlog 5, 6 ac 13 (Rheoli Busnes y Cynulliad)

### Rheol Sefydlog 5

2.25 Rheol Sefydlog 5.1-5.2 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

2.26 Rheol Sefydlog 5.3 – cytunodd y pwyllgor ar ragolwg tair wythnos.

2.27 Rheol Sefydlog 5.4-5.9 – roedd y pwyllgor yn fodlon â'r awgrymiadau yn y papur.

### Rheol Sefydlog 6

2.28 Rheol Sefydlog 6.1-6.2 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

2.29 Rheol Sefydlog 6.3 – cytunodd y pwyllgor i bennu uchafswm yn hytrach na lleiafswm amser ar gyfer cwestiynau'r Cynulliad, sef 45 munud ar gyfer Prif Weinidog Cymru a 30 munud ar gyfer Gweinidogion eraill Cymru.

Cytunodd y pwyllgor i gadw Rheolau Sefydlog 6.3(ii) a (iii).

2.30 Cytunodd y pwyllgor y byddai'r clercod yn diwygio'r rheol sefydlog i ddarparu i'r dirprwy weinidogion ateb cwestiynau mewn rhai amgylchiadau. Wrth wneud hynny, byddai'r clercod yn cymryd i ystyriaeth ddarpariaethau Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban. Awgrymodd y Gweinidog y gallai ei swyddogion hefyd gyfrannu at y gwaith.

2.31 Rheol Sefydlog 6.4 – fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

2.32 Rheol Sefydlog 6.5 – cytunodd y pwyllgor ar y dull a nodir yn y rheol sefydlog gyfredol.

2.33 Rheol Sefydlog 6.6 – cytunodd y pwyllgor y byddai'r Aelodau yn e-bostio'r Clercod i awgrymu categorïau eraill o fusnes i'w cynnwys.

2.34 Cytunodd y pwyllgor ar y ddarpariaeth gyfredol yn y rheol sefydlog o ran dadleuon pleidiau lleiafrifol a phwyllgorau, ac ar yr angen i gytuno ar y slotiau ar gyfer pwyllgorau i'w llenwi yn ôl y galw.

2.35 Rheol Sefydlog 6.7 – cytunodd y pwyllgor y dylai'r rheol sefydlog gyfeirio at adroddiadau 'blynyddol' y pwyllgorau a restrir.

2.36 Rheol Sefydlog 6.8-6.13 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

2.37 Rheol Sefydlog 6.13A – cytunodd y pwyllgor i gadw'r darpariaethau yn y rheol sefydlog

gyfredol, ar yr amod y câi'r testun o "on motions…" tan "draft Assembly legislation" ei ddileu.

2.38 Rheol Sefydlog 6.14 – fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

2.39 Rheol Sefydlog 6.15 – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiynau yn y papur.

2.40 Rheol Sefydlog 6.17- fe'i nodwyd gan y pwyllgor, ond byddai'n rhaid ystyried a oes angen pleidlais fwyafrif o blaid cynnig i estyn cyfarfod.

2.41 Rheol Sefydlog 6.18 – 6.29 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

2.42 Rheol Sefydlog 6.30 – cytunodd y pwyllgor mai 5 diwrnod oedd y cyfnod mwyaf priodol ac nad oedd angen darpariaeth ar gyfer sesiwn cwestiynau llafar heb rybudd.

2.43 Rheol Sefydlog 6.31-6.34 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

2.44 Rheol Sefydlog 6.35-6.40 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor. Cytunodd y Gweinidog i ddychwelyd at y mater o leihau'r cyfnod rhybudd yn Rheol Sefydlog 6.39 o 5 diwrnod gwaith i 3 diwrnod gwaith ar ôl iddi ystyried y mater ymhellach. [Cam gweithredu]

2.45 Rheol Sefydlog 6.41- cytunodd y pwyllgor nad oedd angen cydsyniad y Llywydd bellach.

2.46 Rheol Sefydlog 6.42 -6.43 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

## Rheol Sefydlog 13

2.47 Rheol Sefydlog 13.4 – cytunodd y pwyllgor ar y geiriad a awgrymwyd yn y papur.

2.48 Cytunodd y pwyllgor i ystyried y rheol sefydlog hon ymhellach yng nghyd-destun ei drafodaethau ynghylch pwyllgorau.

## Papur 4 a'r Atodiad – Rheol Sefydlog 7

2.49 Rheol Sefydlog 7.1-7.8 – cytunodd y pwyllgor ar y dull a amlinellwyd yn y papur.

2.50 Rheol Sefydlog 7.9 – gofynnodd y pwyllgor am ragor o gyngor ynghylch y darpariaethau ar gyfer gwahardd Aelodau o'r siambr ac o bwyllgoau yn San Steffan, yn yr Alban ac mewn Seneddau eraill. [Cam gweithredu]

2.51 Rheol Sefydlog 7.10-7.15 – cytunodd y pwyllgor ar y dull a amlinellwyd yn y papur.

## Papur 5 a'r Atodiad – Rheol Sefydlog 12

2.52 Cytunodd y pwyllgor ar y dull a amlinellwyd yn y papur.

## Papur 6 a'r Atodiad – Rheol Sefydlog 20

2.53 Cytunodd y pwyllgor i gadw'r status quo a'i egwyddorion o ran dwyieithrwydd, a hynny ar y sail y gall fod am ailedrych ar y rheol sefydlog hon yng ngoleuni'r adolygiad sy'n cael ei gynnal gan Bwyllgor y Ty ar hyn o bryd.

## Papur 7 a'r Atodiadau – Rheol Sefydlog 23

2.54 Cytunodd y pwyllgor ar y cwestiynau yn y papur.

## Papur 8 a'r Atodiadau – Rheolau Sefydlog 35 a 36

2.55 Cytunodd y pwyllgor ar y dull a amlinellwyd yn y papurau a nododd y byddai angen drafftio rheol sefydlog 36 mewn ffordd sy'n cymryd i ystyriaeth benderfyniadau'r pwyllgorau ar weithdrefnau sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth.

## Papur 9 a'r Atodiad – Rheol Sefydlog 37

2.56 Rheol Sefydlog 37.1 - oherwydd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynghylch Pwyllgor Busnes neu Fiwro ar gyfer y Cynulliad newydd, cytunodd y pwyllgor y byddai'r clercod yn drafftio'r rheol sefydlog gan ddefnyddio'r ddau derm i'r pwyllgor ei hystyried. Cytunodd y pwyllgor y byddai angen i 6 Aelod gefnogi cynnig i ddiwygio'r rheolau sefydlog.

2.57 Cytunodd y pwyllgor y byddai'r clercod yn trafod â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru y posibilrwydd o ddrafftio darpariaeth yn y rheol sefydlog ar gyfer pennu terfyn amser y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes/Biwro gydymffurfio ag ef o ran ymateb i gynnig i ddiwygio'r rheolau sefydlog.

2.58 Rheol Sefydlog 37.2 – cytunodd y pwyllgor ar y cwestiwn yn y papur.

2.59 Rheol Sefydlog 37.3- 37.6 – fe'u nodwyd gan y pwyllgor.

Gwasanaeth y Pwyllgorau